

Äbig y Goeden



Y Siarc Slei, Seimlyd

TESSA KRALING



Y Siarc Slei, Seimlyd

TESSA KRALING

Lluniau gan Jan Lewis



DRAKE



1

Llyn Glangwna

Stori am Ffurat a'i griw ydi hon. Robin Elis ydi enw iawn Ffurat. Mae'n rêl ffleii a'i dad yn dweud fod ganddo drwyn fel ffured i fusnesu. Dyna pam mae'n cael ei alw'n Ffurat.

Jamal ydi ei ffrind gorau. Weithiau byddan nhw'n ei alw fo'n Pot Jam.



Mae Jamal yn wych am wneud Mathemateg ac yn cario cyfrifiannell boced bob amser. Bydd yn gweithio pethau allan arni. Mae wedi gweithio allan sawl gwaith y mae Mrs Storm, eu hathrawes, yn dweud, “Wel gwared y gwirion, 4S!” Chwe gwaith y dydd, meddai Jamal. Mae hynny’n dri deg o weithiau’r wythnos, sydd yn fil a dau gant o weithiau’r flwyddyn, heb gynnwys y penwythnosau a’r gwyliau.

Gwyddelan Hopcyn ydi trydydd aelod y criw. Does ganddo fo ddim llysenw. Mae pawb yn meddwl fod cael ei alw yn Gwyddelan yn ddigon o anlwc. Cafodd Gwyddelan ei eni'n anlwcus. Petai seren wib yn saethu o'r awyr ac yn taro un person yn y byd i gyd, Gwyddelan fyddai hwnnw.



Dyma'r pedwerydd aelod o griw Ffurat.
Modlen ydi ei henw hi. Bydd gweddill y
criw weithiau yn ceisio mynd hebddi hi.
Ond y rhan amlaf byddan nhw'n gadael iddi
hi ddod am ei bod hi'n gwneud cymaint o
stŵr os byddan nhw'n gwrthod. A hefyd am
ei bod hi'n ddewr iawn. Mae hyn yn hynod
o handi pan fydd y criw mewn sefyllfa
beryglus.



Fel yr amser y gofynnodd Mrs Storm am wirfoddolwyr i helpu i glirio'r sbwriel allan o Lyn Glangwna.



Ac roedd Ffurat a'i griw wedi laru clirio'r sbwriel a phenderfynon nhw chwilio am siarcod.



Ac roedd Gwyddelan druan yn fwy anlwcus nag arfer ...

“Mae Llyn Glangwna yn gywilydd i’w weld,” meddai Mrs Storm wrth 4S un pnaawn dydd Gwener. “Rŵan pwy fyddai’n hoffi dod draw bore dydd Sul i’w helpu i i’w glirio?”

Roddodd neb o gwbl ei law i fyny.



“Wel gwared y gwirion, 4S, beth wna i efo chi?” meddai Mrs Storm. “Dyma eich cyfle chi i wneud rhywbeth i’r amgylchfyd. Does bosib nad oes yna rywun ohonoch chi eisio helpu?”

Gwingodd Ffurat yn anghyfforddus yn ei sedd. Roedd Mrs Storm, fel ei henw, yn berson pwerus iawn.



Fel arfer chwythai o gwmpas fel awel gymedrol, tua Grym 5, ond ar y funud hon roedd yn wynt Grym 8 a hwnnw'n codi.



Roedd yn rhaid iddo'i rhwystro rhag troi'n ddrycin go iawn.

Cododd ei law. “Gwnawn ni,” meddai.
“Fi a Jamal a Gwyddelan. Helpwn ni chi i
glirio’r llyn.”



“Ardderchog!” gwenodd Mrs Storm ar y
tri ohonyn nhw. “Dowch i ’nghyfarfod i ger
y llyn am ddeg o’r gloch yn brydlon.
Gwisgwch eich dillad bleraf.”

Ffurat oedd y cyntaf i gyrraedd ar fore
dydd Sul. Roedd y llyn ar dir gwyllt ger
pentref Cae-athro.

Siâp banana oedd y llyn ac roedd ar dro o amgylch clwstwr o goed. Prociodd Ffurat y slafan gwyn anghynnes o amgylch yr ymylon â blaen ei welington. Roedd Mrs Storm yn llygad ei lle. Roedd y llyn mewn cyflwr difrifol. Cymerai hydroedd i'w glirio.



Jamal oedd y nesaf i gyrraedd. “Wn i ddim pam ddwedaist ti wrth Mrs Storm y bydden ni’n helpu, Ffurat,” cwynodd.

Gwn i am ddigon o bethau fyddain well gen i fod yn eu gwneud ar fore Sul na chlirio hen llyn drewllyd.



Gwyddelan gyrhaeddodd wedyn. Syllodd y ddau arall arno.

“Dywedodd Mrs Storm wrthon ni am wisgo ein dillad bleraf,” meddai Ffurat.

“Do, ond dydd Sul ydi hi,” meddai Gwyddelan.



Mae Nain bob amser yn gwneud imi wisgo fy siwt orau ar ddydd Sul.

Doedd gan Gwyddelan ddim tad na mam, felly roedd yn rhaid iddo fyw gyda'i daid a'i nain. Roedden nhw'n hŷn na thaid a nain y rhan fwyaf o bobl ac roedden nhw'n credu mewn disgyblaeth gadarn.

Y munud hwnnw jogiodd Mrs Storm atyn nhw yn gwisgo siwt jogio goch.

“Iawn. Pawb mewn pryd. Unrhyw gwestiwn cyn inni gychwyn?”



“Dim ond un,” meddai Ffurat. “Beth os caiff un ohonon ni hyd i rywbeth gwerthfawr sydd wedi cael ei luchio, rhywbeth fel hen bêl-droed? Gawn ni ei gadw?”



“Wela i ddim pam lai,” meddai Mrs Storm. “Iawn. Cychwynnwn ni. Dechreuwch chi yn y pen yma. A i draw i'r pen arall.” Jogiodd ymaith o amgylch y clwstwr coed nes yr aeth hi o'r golwg.

Gweithiodd pawb yn dawel am dipyn, yn codi pob math o sbwriel allan ... bocsys cardfwrdd soeglyd, caniau cwrw gwag i enwi dim ond dau. Pasiwyd nhw'n ôl fesul un i Gwyddelan oedd yn cadw'n ddigon clir o'r llyn.



Yn sydyn rhuthrodd Modlen yno. “Dyma ble rydych chi! Dwi wedi bod yn chwilio amdanoch chi ym mhobman. Be ydych chi'n wneud?”

“Clirio’r llyn,” meddai Ffurat.

“Helpa i chi,” meddai Modlen.

Penliniodd ar y dorlan a phwyso dros y fan lle roedd y dŵr ddyfnaf. Roedd yn fudr ac yn frown ac yn dywyll ac yn llawn o synau byrlymu a thasgu. “Betia i fod yna siarcod yn fan’na,” meddai hi.



“Mae’r tebygolrwydd o gael hyd i siarc yn y llyn yna,” meddai Jamal gan amcangyfrif yn gyflym yn ei ben, “yn rhywbeth fel un mewn chwe deg pum miliwn.”

Yr union funud hwnnw daeth cysgod
anferth, bygythiol i dywyllu wyneb y llyn.



“Dyna un!” gwaeddodd Modlen.

Rhythodd y lleill i'r dŵr. Ac yn wir, yn
rhythu'n syth yn ôl arnyn nhw roedd wyneb
siarc gyda rhesi o ddannedd miniog a
llygaid bychain slei.

AC ROEDD O'N GWENU!



Trysor Tanddwr

“Chwilio am rywbeth ydych chi, blant?”
gofynnodd y siarc.


Ond doedd y llais ddim yn dod o'r dŵr.
Roedd o'n dod o'r tu cefn iddyn nhw.

Trodd Ffurat a'i griw a gweld y siarc yn
sefyll ar y dorlan, yn gwenu'n slei a
danheddog. Nid siarc iawn oedd o, wrth
gwrs, ond dyn â dannedd siarclyd a gwallt
du seimlyd. Ei adlewyrchiad roedden nhw
wedi ei weld yn y dŵr.

“Rydan ni’n clirio’r llyn,” meddai Ffurat wrtho.

“Ydach chi wir?” Gwenodd fwy fyth. “Felly dwi’n meddwl yr arhosa i yma am dipyn rhag ofn ichi gael hyd i rywbeth diddorol.”

Pwysodd ei gefn yn erbyn coeden.



Edrychodd Modlen arno’n ddirmygus. “Medrech chi roi help llaw inni petaech chi eisio,” meddai hi.

Dim diolch.
Gallwn i faeddu 'nwylo.
Peidiwch â chymryd sylw ohono i.




Doedd hynny ddim yn hawdd. Drwy'r adeg roedden nhw'n gweithio, gallai Ffurat deimlo llygaid bach slei y dyn yn eu gwyllo nhw. "Be wyt ti'n meddwl mae o eisio, Pot Jam?" sibrydodd.

“Wn i ddim,” sibrydodd Jamal yn ôl.

Roedd Gwyddelan wedi bod yn symud yn nes ac yn nes at lan y llyn. Yr eiliad honno estynnodd allan i gydio mewn darn o gardfwrdd yn arnofio ar y dŵr. Collodd ei gydbwysedd.



“Ooooo!” gwaeddodd, gan chwifio’i freichiau fel melin wynt. “Dwi’n meddwl ... ’mod i’n mynd i ...”



Yn ffodus, doedd y llyn ddim yn ddwfn iawn felly doedd Gwyddelan ddim mewn peryg o foddi. Ond pan gododd yn ôl ar ei draed roedd ei wyneb a'i ddwylo wedi eu gorchuddio gan slwtsh du, ei siwt ddydd Sul yn slafan gwyrdd drosti – ac roedd yn wên o glust i glust.



Straffagliodd o'r pwll, ei law allan.
Gwelodd Ffurat a Jamal rywbeth yn debyg i lwmpyn o fwd ar gledr llaw Gwyddelan.
“Be ydi o?” gofynnodd y ddau.

“Ie, be ydi o, Gwyddelan?” meddai Modlen. “Be wyt ti wedi cael hyd iddo?”

“Welwch chi ddim?” Rhwbiodd Gwyddelan dipyn o’r mwd ymaith i ddangos rhywbeth bychan crwn gydag arlliw o sglein fetalaidd.



“Darn arian!” meddai Ffurat.

“Darn *punt*,” meddai Jamal.

“Trysor tanddwr,” meddai Modlen.

“Gwyddelan, rwyt ti’n gyfoethog!”

Ar hynny clywson nhw lais y tu cefn iddyn nhw. Gwnaeth iddyn nhw neidio.

Gawsoch chi hyd i rywbeth?
Rhywbeth yn y dŵr?



Roedden nhw wedi anghofio am y dyn – y siarc. Yn frysioed caeodd Gwyddelan ei ddwrn dros y darn arian a'i roi y tu cefn iddo.

“Dim ond hen fotwm,” meddai Ffurat.
“Rhaid fod rhywun wedi ei luchio i mewn.”



Symudodd neb. Meddai Modlen yn herfeiddiol, “Na chewch. Chewch chi ddim. Gadewch lonydd inni.”

“Hei, nid dyna’r ffordd i siarad.” Roedd llais y dyn yn dawel a bygythiol. Safodd uwchben Gwyddelan. “Tyrd, ’ngwas i. Dim lol. Dangos be sy gen ti yn dy law i mi.”



3

Mrs Roberts

Yn sydyn galwodd llais crynedig, “Ydi o’n iawn? Ydi o’n ddiogel?”

Brysiodd hen wreigan o dai’r pentref tuag atyn nhw. Griddfannodd Gwyddelan. “O na, Mrs Roberts ydi hi. Ffrind Nain.”

Cyrhaeddodd yno’n fyr ei gwynt. “Gwelais i beth ddigwyddodd. Roeddwn i’n edrych allan drwy’r ffenest yn union fel roedd yr hogyn druan yna’n syrthio i’r dŵr.”

Edrychodd ar wyneb Gwyddelan. “Wel wir! Gwyddelan Hopcyn ydi o – ac yn gwisgo dy siwt orau hefyd!”



Roedd Gwyddelan yn dal i gydio yn ei ddarn arian gwerthfawr. Edrychodd i lawr ar ei siaced oedd yn slafan gwyrdd drosti. “Ym, wn i ddim ...”

“Caiff hi ffit pan welith hi di,” twt-
twrtiodd Mrs Roberts gan ysgwyd ei phen.

Well iti ddod adref efo mi -
imi gael tacluso tipyn arnat ti.



A llusgodd Gwyddelan druan draw i'w
thŷ hi.

Trodd y lleill i chwilio am y siarc.

“Mae o wedi diflannu!” meddai Ffurat.

“Rhaid ei fod o wedi rhedeg i ffwrdd pan welodd o Mrs Roberts,” meddai Jamal.

“Sôn am hen fabi,” meddai Modlen.

“Meddyliwch! Ofn hen wraig fach fel yna!”

“Well inni ddal ati i glirio’r llyn,” meddai Ffurat.



Roedd golwg feddylgar ar Jamal. “Beth petai – dim ond beth petai – Modlen yn iawn am y trysor tanddwr. Be ydw i’n feddwl, dim ond un darn arian gafodd Gwyddelan hyd iddo.”

Disgleiriodd llygaid Ffurat. “Wyt ti’n meddwl fod yna fwy ohonyn nhw?”

“Mae’n bosib. Ac mae Mrs Storm wedi dweud y caen ni gadw beth bynnag gaen ni hyd iddo.”

“Mae hynny’n golygu y byddwn ni I GYD yn gyfoethog,” meddai Modlen. A chamodd i mewn i’r llyn nes roedd y dŵr at dop ei welingtons.





4

Y Tebot Bach Glas

Yn y cyfamser roedd Mrs Roberts yn glanhau tipyn ar Gwyddelan. Gwylodd tra oedd o'n sgrwbio'i wyneb a'i ddwylo.

Yna aeth hi â'i siaced i'r ardd i dynnu'r chwyn.

Tra bu hi yno golchodd Gwyddelan y mwd oddi ar y darn punt a rhoddodd o ym mhoced ei drowsus.

Pan ddaeth Mrs Roberts yn ôl rhoddodd ei siaced iddo. “Dyma ti, Gwyddelan. Gwnes i ’ngorau i’w glanhau. Sut ar wyneb y ddaear y syrthiaist ti i’r dŵr?”



“Wn i ddim,” atebodd Gwyddelan. “Am ’mod i’n anlwcus mae’n debyg.”
Cyffyrddodd y darn punt yn ei boced.
“Rydw i fel arfer, beth bynnag.”

Ochneidiodd Mrs Roberts. “Dwi wedi bod yn anlwcus hefyd. Ddoe daeth yna ddyn ifanc at y drws a chynnig palu’r ardd imi. ‘Tawn,’ meddwn i, am fod fy nghefn i wedi bod yn ddrwg yn ddiweddar ac mae palu yn waith caled.

“Ar ôl iddo orffen gofynnais iddo ddod i mewn am baned. A’r eiliad nesaf roedd o wedi dwyn fy nhebot i ac wedi diflannu.”



“Nage. Nid yr hen debot brown fydda i’n ei ddefnyddio i wneud te. Tebot bach glas arbennig oedd o. Ynddo roeddwn i’n cadw f’arian.

“Rhedais i ar ei ôl o, wrth gwrs. Dilynais i o hanner y ffordd at y llyn. Ond collais i o wedyn.” Dechreuodd gwefus isaf Mrs Roberts grynu.



“Ddwetsoch chi wrth yr heddlu?”
gofynnodd Gwyddelan.

“Wrth gwrs. Disgrifiais i o’n fanwl iddyn nhw. Hen lygaid bach slei a dannedd miniog.”

Rhythodd Gwyddelan arni.



“Yn union fel siarc. Ond chân nhw byth hyd iddo mae’n debyg. Pan dwi’n mēddwl amdano fo’n dianc efo fy nhebot bach glas i medrwn i – medrwn i -” edrychai Mrs Roberts yn andros o chwyrn. “Medrwn i ei *ddyrrnu* o!”

“Efallai na lwyddodd o i ddianc efo fo. Efallai ei fod o wedi’i ollwng pan redoch chi ar ei ôl o.” Cyffyrddodd Gwyddelan y darn punt yn ei boced eto.

“Mrs Roberts, yr arian yma oedd gynnoch chi yn y tebot bach glas – papur oedden nhw ... neu ddarnau arian?”



“Roeddwn i wedi bod yn eu cynilo nhw o ’mhensiwn i dalu’r bil trydan,” ychwanegodd Mrs Roberts. Sychodd ei llygaid â’i hances. “Wela i byth mohonyn nhw eto.”



Ochneidiodd Gwyddelan.

Rhywfodd, gwyddai drwy'r adeg na fedrai o ddim bod yn wir. Tynnodd ei law o'i boced a rhoi'r darn punt i Mrs Roberts.

“Dyma un ohonyn nhw,” meddai. “A dwi'n meddwl 'mod i'n gwybod ble cawn ni hyd i'r gweddill.”



‘Gordon, Aros Lle Rwyt Ti!’

“Dwi wedi cael hyd i rywbeth!” Cododd Modlen rywbeth glasfrown allan o’r dŵr. “Mae’n galed – ac yn grwn – ac mae ’na ryw fath o big ar un ochr.”

“Dim ond hen debot budr,” meddai Jamal. Gorweddai ar ei fol yn llygadu’r dŵr.

Crafangiodd Modlen i fyny'r dorlan a dangos y tebot i Ffurat. "Mae'n teimlo'n drwm ... a gwrandda."

Ysgydwodd o. Gwnaeth sŵn rhuglo. "Mae'n swnio fel petai'n llawn cerrig mân." Edrychodd Ffurat i mewn i'r tebot.



Ond cyn iddo fedru gorffen, saethodd llaw fawr i lawr a cheisio cipio'r tebot o afael Modlen. "Fi biau hwnna," chwyrnodd y siarc, wedi ymddangos o'r llwyni.




Cydiodd Modlen ynndo'n dynn. "Nid chi bia fo. Fi sydd. Ewch o'ma'r hen fwli mawr."

"Mae hi'n iawn," meddai Ffurat.

"Dwedodd Mrs Storm y caen ni gadw beth bynnag gaen ni hyd iddo. Felly ein tebot ni ydi o. Ni gafodd hyd iddo."

“A rŵan ’dach chi wedi ei goll!” Cipiodd y siarc y tebot o ddwylo Modlen ac i ffwrdd ag o nerth ei draed.




A’r munud hwnnw brysiodd Gwyddelan a Mrs Roberts yno. “Dacw fo!” gwaeddodd Mrs Roberts. “Dacw fo’r lleidr! Daliwch o!”


Clywodd y siarc ei llais ac edrychodd
dros ei ysgwydd yn frysio.



Welodd o ddim fod coesau Jamal ar
draws y llwybr. Yr eiliad nesaf syrthiodd yn
bendramwnwgl.




Hedfanodd y tebot drwy'r awyr.
Glaniodd ar y ddaear galed a
thorri'n deilchion, gan wasgaru'i
gynnwys.



Cododd Jamal ar ei eistedd i gael gweld yn well. “Hei, nid cerrig ydi’r rheina!” meddai. “Ond ...”

“Darnau punt!” Cyrhaeddodd Gwyddelan yn fyr ei wynt. “Mae o wedi eu dwyn nhw oddi ar Mrs Roberts. Brysia! Stopia fo!”



Neidiodd y siarc ar ei draed a saethu ymaith fel roced o amgylch y clwstwr coed.

A chyfarfod Mrs Storm.


“Gordon Owen!” meddai hi. “Beth ar wyneb y ddaear rwyd ti’n ei wneud yn y fan yma?”



Edrychodd heibio iddo. Dyna lle roedd Mrs Roberts yn codi’i dwrn a Jamal yn rhwbio’i goes.

“Rwyd ti’n dal i greu helynt, yn ôl pob golwg,” ychwanegodd yn chwyn. “Ddim wedi newid o gwbl ers pan oeddet ti yn fy nosbarth i ddeng mlynedd yn ôl.”

Cychwynnodd y siarc, sef Gordon Owen, droi'n ôl. Ond y munud hwnnw rhuodd Mrs Storm, "Gordon, AROS LLE RWYT TI!"



Ac yn rhyfedd iawn, fe wnaeth o.

Rwân,
wnaiff rhywun
egluo i mi be
sy'n bod?



Siaradodd pawb ar draws ei gilydd.
Rhywfodd llwyddodd Mrs Storm i ddeall
beth oedd wedi digwydd. "Gwared y gwirion,
Gordon!" meddai hi.





6

Mam y Siarc

Roedd golwg wedi dychryn ar y siarc. “O! os gwelwch chi’n dda, peidiwch â galw’r heddlu. Bydd Mam yn gandryll os clyw hi.”

“O ie, dwi’n cofio dy fam,” meddai Mrs Storm gan nodio’i phen. “A medra i ddychmygu mor gandryll fydd hi. Ond mae arna i ofn y dylet ti fod wedi meddwl am hynny cyn iti ddwyn tebot Mrs Roberts.”

“Mae’r heddlu yn chwilio amdano fo’n barod,” meddai Gwyddelan. “Disgrifiodd Mrs Roberts o iddyn nhw.”

“Do, fe wnes i,” meddai Mrs Roberts.
“Dwedais i wrthyn nhw fod ganddo wallt
du seimlyd a llygaid bychain slei.”

“Felly,” meddai Mrs Storm, “fydd hi’n
fawr o dro cyn iti gael dy ddal, Gordon.”




Nid edrych fel petai wedi ei ddychryn
roedd y siarc ond fel petai ofn drwy waed ei
galon.

“Plis, Mrs Storm,” crefodd. “*Plis* peidiwch
â galw’r heddlu. Gwna i unrhyw beth ’dach
chi eisio.”

“Mae hynny’n dibynnu ar Mrs Roberts.”
Edrychodd Mrs Storm ar yr hen wraig. “Be ydach chi’n feddwl?”

Edrychai Mrs Roberts yn ansicr. “Wel, am wn i ... ond iddo addo na wnaiff o ddim o’r fath beth eto ...”



Trodd Mrs Storm yn ôl at y siarc. “Wyt ti’n addo? Ar dy lw?”

Llyncodd ei boeri. “Dwi’n addo.”

“Iawn felly, Gordon. Y peth cyntaf dwi am iti ei wneud ydi codi’r darnau punt yna sydd o gwmpas. Rho nhw’n ôl i Mrs Roberts.

“O, a phaid ag anghofio dweud wrthi fod yn ddrwg gen ti.”



Aeth y siarc i lawr ar ei bengliniau. Dechreuodd ymbalfalu yn y mwd. Wedi iddo gasglu’r darnau punt i gyd rhoddodd nhw i’r hen wraig gan ddweud, “Mae’n ddrwg gen i, Mrs Roberts,” o dan ei wynt.

Derbyniodd Mrs Roberts y darnau arian
– a'r ymddiheuriad – yn urddasol iawn.



“Iawn,” meddai Mrs Storm yn chwim.
“Rwan dwi isio i ti fynd i lawr i'r farchnad
Sul. Cei di brynu tebot newydd sbon iddi
yn lle'r un dorraist ti. Wyt ti'n deall?”



Swniai'n ddigon diniwed ac addfwyn,
yn debycach i benbwl nag i siarc.

“Wel brysia, wir! Paid â sefyllian yn fan’na.”

“Iawn, Mrs Storm. Dwi’n mynd, Mrs Storm.”

Brysiodd ymaith tua’r pentref fel petai un o gŵn yr heddlu eisioes yn dynn ar ei sodlau.



Arhosodd Mrs Storm iddo fynd o’r golwg cyn troi at Gwyddelan.

Ochneidiodd. Yna dywedodd,
“Gwyddelan, dwi’n meddwl fod yn well i ti fynd adref ar d’union a chael bath poeth.”

Griddfannodd Gwyddelan. “Bydd Nain o’i cho’n las,” cwynodd.



Aeth Mrs Roberts ymlaen i ddweud,
“Oherwydd do i efo ti. Dweda i wrthi sut yr
helpaist ti fi i gael fy mhres yn ôl. Bydd yn
amhosib iddi fod o’i cho efo ti wedyn. A
dweud y gwir dwi eisio iti gael rhyw fath o
wobr. Beth am yr hufen-iâ mwyaf welaist ti
erioed?”



Cododd Gwyddelan ei galon y munud hwnnw. “Ga i un fanila efo saws siocled?”

“Cei di beth bynnag wyt ti eisio.”

Goleuodd llygaid Gwyddelan. Edrychai fel petai'n mynd i fod yn lwcus o'r diwedd.

Wedi iddyn nhw fynd meddai Jamal, “Meddyliwch fod y siarc yn ein hysgol ni ddeng mlynedd yn ôl.”

“Ie, ac mae'n rhaid ei fod mor slei ac annifyr yr adeg hynny hefyd,” meddai Modlen. “Ond mae o ofn ei fam yn ofnadwy, yn tydi?”

“Os mai ei fam o ydi’r Mrs Owen sy’n byw yng ngwaelod Stryd y Rhos, dwi’n synnu dim,” meddai Jamal. “Mae hi gymaint â rheino a ddwywaith mor ffyrnig.”

“Gordon druan,” ochneidiodd Modlen.

“Bron nad oes gen i biti drosto, yn byw yn yr un tŷ â rheino. Hyd yn oed os ydi o’n siarc.”

Gwenodd Ffurat.

Mae un peth yn sicr.
Tynnodd cyfarfod â Mrs
Storm unwaith eto y wên
oddi ar ei wyneb.



Am yr awdur

Ysgrifennais fy stori gyntaf
pan oeddwn yn bedair oed.
Gwyddwn o'r munud
hwnnw 'mod i eisiau bod
yn awdur, ond bu'n
flynyddoedd lawer cyn i'r
llyfr cyntaf (am
ddeinosoriaid) gael ei



gyhoeddi. Ers hynny ysgrifennais dros dri deg o
lyfrau ar gyfer plant o bob oed. Rwy'n hoffi
ysgrifennu storiâu dirgelwch a storiâu sy'n gwneud
i bobl chwerthin yn fwy na dim arall.

Cefais y syniad ar gyfer y stori hon wrth helpu i
lanhau llyn ar Ynys Wyth lle rydw i'n byw ar hyn o
bryd.

Llyfrau Brig y Goeden yng Ngham 13:

Pecyn A *Dial Capten Gwaed* gan Paul Shipton
Yr Anghenfil yn y Wardrob gan Paul Shipton
Dan Ddu gan Susan Gates
Ar Drywydd Stori gan Roger Stevens
Esgym! gan Paul Shipton
Y Gôli o 'Nulle gan Alan MacDonald
Y Siarc Slei, Seimlyd gan Tessa Krailing

Pecyn B *Dwi Eisio, Dwi Eisio* gan Paul Shipton
Y Ffisig Ffrwydrol gan Alan MacDonald
Cyfrinach y Gôli gan Paul Shipton
Yn Gynt Na'r Gwynt! gan Paul Shipton
Aros am Aur gan Susan Gates
Y Bwci Bo! gan Michaela Morgan
Sgwad Swigyn gan Paul Shipton

Y Siarc Slei, Seimlyd

Mae'r criw - sef Robin (Ffurat)
a Jamal, Gwyddelan ac wrth gwrs,
Modlen, - yn helpu Mrs Storm
i lanhau'r llyn.
Beth welan nhw ond siarc ...
ac mae o'n gwenu!



ISBN 0 86174 507 8

DRAKE

ISBN 0-86174-507-8



9 780861 745074

Brig y Goed



Coeden
Ddarllen
Rhydyche

Cam 13